Hawdd ei Ddeall

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Edrych ar wasanaethau anabledd dysgu ym Mlaenau Gwent

## Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Gwiriad Sicrwydd Tîm Cymunedol Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Anabledd Dysgu penodol)**'.

**Mawrth 2024**

# Sut i ddefnyddio'r adroddiad yma

Dyma adroddiad hawdd ei ddeall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 30**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.arolygiaethgofal.cymru

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am yr adroddiad yma** .......... **4**

**Beth rydyn ni yn ei wneud** .......... **5**

Y ffordd rydyn ni wedi gwneud ein gwiriadau .......... 6

**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod** .......... **7**

Pobl .......... 8

Atal .......... 15

Partneriaeth .......... 20

Llesiant .......... 23

**Beth fydd yn digwydd nesaf** .......... **28**

**Geiriau anodd** .......... **30**

# Am yr adroddiad yma

Ni ydy **Arolygiaeth Gofal Cymru**.



Rhwng **26 a 28 Mawrth 2024**, fe wnaethon ni **Wiriad Sicrwydd** o:

**Tîm Cymunedol Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Anabledd Dysgu penodol)**



Mae **Gwiriad Sicrwydd** yn edrych i weld eu bod nhw yn gwneud eu gwaith yn dda ac yn dilyn y rheolau.


Hawdd ei Ddeall

Edrych ar wasanaethau anabledd dysgu ym Mlaenau Gwent

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

Mae'r adroddiad yma yn rhannu beth rydyn ni weid ei ddarganfod.

# Beth rydyn ni yn ei wneud



Rydyn ni yn edrych i weld pa mor dda  mae cynghorau yn gwneud eu gwaith ac yn helpu pobl.

Rydyn ni yn canolbwyntio ar ba mor dda mae'r cyngor yn gwneud y pethau yma:



1. **Pobl** - Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael dweud eu dweud ac yn cael rheoli  eu bywydau.



2. **Atal** - Cadw'r angen am gefnogaeth yn isel a stopio problemau rhag gwaethygu.



3. **Partneriaethau** - Gweithio'n dda gydag eraill i ddarparu gwasanaethau da a pharhaol.



4. **Llesiant** - Amddiffyn pobl rhag niwed a chamdriniaeth, fel eu bod nhw yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael cefnogaeth.




Rydyn ni yn edrych i weld ydy gwasanaethau'n dilyn **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**.

## Y ffordd rydyn ni wedi gwneud ein gwiriadau



Fe wnaethon ni edrych ar gofnodion gofal cymdeithasol 23 o bobl. Ar gyfer 4 ohonyn nhw, fe wnaethon ni siarad â'r person, eu teulu neu eu gofalwyr a'r gweithwyr.



Fe wnaethon ni siarad â 14 o bobl neu eu gofalwyr sy'n cael gwasanaethau i glywed beth maen nhw'n ei feddwl.



Fe wnaethon ni siarad â gweithwyr ac edrych ar ddogfennau.




Fe wnaethon ni arolygon gyda phobl, gofalwyr, rhanddeiliaid a gweithwyr y cyngor i wybod beth roedden nhw'n feddwl.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Rydyn ni wedi dod o hyd i waith da.




A phethau mae angen iddyn nhw fod yn well.



Mae rhai pethau rydyn ni eisiau i'r cyngor eu gwneud.




Pan fyddwn ni yn dweud **rhaid**, mae hyn yn meddwl newidiadau mae angen eu gwneud i ddilyn y gyfraith.



Pan fyddwn ni yn dweud **dylai**, mae hyn yn meddwl newidiadau fydd yn gwneud pethau'n well ond dydyn nhw ddim yn gyfraith.

# Pobl

## Gwaith da



Mae rhai pobl yn gallu dewis pa help maen nhw'n ei gael. Mae'r help ar gyfer:

- beth sy'n bwysig iddyn nhw,
- a beth maen nhw eisiau ei wneud.



Mae gofalwyr yn gallu helpu i benderfynu pa help mae'r person maen nhw'n gofalu amdanyn nhw ei angen.



Mae gofalwyr yn cael cynnig **asesiad gofalwr**. Archwiliad ydy hwn i weld pa help maen nhw eu hunain ei angen efallai.



Roedd y cofnodion gofal cymdeithasol y gwnaethon ni edrych arnyn nhw yn cynnwys gwybodaeth am:

- sut mae pobl yn gwneud,
- beth maen nhw'n gallu ei wneud yn dda,
- a beth sydd yn gallu bod yn beryglus iddyn nhw.



Gweithwyr sy’n gwybod y ffordd orau i siarad â rhywun. A deall beth maen nhw eisiau.



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud fod gweithwyr yn dda am wrando ar oedolion ag anabledd dysgu.



Mae gweithwyr yn hoffi eu swyddi. Fe wnaethon nhw ddweud fod eu tîm yn ddefnyddiol ac yn poeni am bob unigolyn.



Maen nhw’n teimlo bod eu penaethiaid yn eu cefnogi nhw ac maen nhw’n gallu siarad â nhw. Fe wnaeth y rhan fwyaf o’r staff ddweud fod y penaethiaid yn gyfeillgar.



Mae gweithwyr yn cael cyfarfodydd arbennig gyda’u penaethiaid i siarad am eu gwaith. Mae ganddyn nhw amser i feddwl am beth maen nhw’n ei wneud.



Maen nhw’n siarad am achosion anodd ddwywaith yr wythnos. Maen nhw’n hoffi cael y cyfleoedd yma i siarad a meddwl.



Mae gweithwyr yn dweud eu bod yn gallu dysgu pethau newydd pan fydd angen.




Mae pobl yn gallu siarad yn yr iaith maen nhw’n ei hoffi, ac mae gweithwyr yn rhoi dewis iddyn nhw.



Mae gweithwyr yn gwybod bod pobl weithiau angen help i siarad drostyn nhw eu hunain. Fe wnaethon ni weld bod pobl yn cael help gan ffrindiau neu deulu.

## Pethau sydd angen eu gwneud yn well




Weithiau, mae pobl yn gallu cael arian i ddewis a thalu am help eu hunain. Mae hyn yn cael ei alw yn daliad uniongyrchol.



Dydy pawb ddim yn gwybod amdano oherwydd dydy rhai timau ddim yn dweud wrth bobl.



Mae rhai pobl yn defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu cynorthwywyr personol. Ond mae dod o hyd iddyn nhw yn gallu bod yn anodd. Mae hyn yr un fath mewn rhannau eraill o Gymru.



**Rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am daliadau uniongyrchol. Mae'n rhaid iddyn nhw roi gwybodaeth, felly mae'n hawdd i bobl benderfynu.**




**Os ydy'r cyngor yn dweud na i roi taliadau uniongyrchol, rhaid iddyn nhw egluro ac ysgrifennu pam eu bod yn dweud na.**



Fe wnaeth rhai gofalwyr ddweud nad oedden nhw bob amser yn cael gwybod beth roedden nhw yn gallu ei gael na gofyn amdano. Dydyn nhw ddim yn gwybod pa help maen nhw'n gallu ei gael yn eu cymuned.



**Rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod gofalwyr yn gwybod am yr holl help maen nhw'n gallu ei gael.**




Fe wnaeth rhai pobl ddweud nad ydyn nhw'n cael gwybodaeth neu luniau Hawdd eu Ddeall sy'n eu helpu i ddeall yn well.




**Fe ddylai'r cyngor helpu gweithwyr i roi gwybodaeth hawdd ei ddeall a ffyrdd eraill fel bod pawb yn gallu deall. Mae hyn yn helpu pobl i wybod mwy a chymryd rhan.**



Fe wnaeth pobl a gofalwyr ddweud bod cysylltu â'r cyngor yn gallu bod yn anodd. Doedd rhai gofalwyr ddim yn gwybod gyda phwy i siarad. Roedden nhw'n dweud y byddai'n haws pe bai ganddyn nhw 1 person i gysylltu.



Fe wnaeth gofalwyr ddweud bod cael gweithwyr gwahanol drwy'r amser yn gallu bod yn broblem. Mae newidiadau yn gallu gwneud iddyn nhw a'r person y maen nhw'n gofalu amdano boeni a bod yn bryderus.



**Rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr nad oes rhaid i bobl adrodd eu stori drosodd a throsodd. Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr pan fydd pobl yn cysylltu â'r cyngor, eu bod nhw yn cael ateb cyflym a da bob tro.**




Dywedodd gweithwyr fod eu penaethiaid yn edrych i weld pa mor dda ydy asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth.



Pan wnaethon ni edrych ar y cofnodion gofal cymdeithasol, doedden ni ddim bob amser yn gweld tystiolaeth bod y penaethiaid yn edrych ar y cofnodion.



**Fe ddylai'r cyngor wneud yn siŵr bod penaethiaid yn edrych dros y gwaith, a bod tystiolaeth o hyn yn y cofnodion.**



Roedd tua hanner y bobl y gwnaethon ni yn siarad â nhw yn teimlo bod gweithwyr yn gwrando'n dda iawn wrth gynllunio gofal. Fe wnaeth yr hanner arall ddweud nad oedden nhw'n teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw neu ddim ond weithiau yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw.



**Mae'n rhaid i'r cyngor wella wrth wrando ar bobl.**

## Gwaith da



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl, gweithwyr a rhai gofalwyr ddweud wrthyn ni fod llawer o bethau defnyddiol yn y gymuned. Fe wnaethon ni weld tystiolaeth o hyn mewn rhai cofnodion gofal cymdeithasol.

Fe wnaeth gweithwyr ddweud bod **technoleg gynorthwyol** yn gallu helpu pobl sydd ei angen.



Mae **technoleg gynorthwyol** yn offer sy'n helpu pobl i wneud pethau sydd yn gallu bod yn anodd iddyn nhw. Yn y cartref, mae hyn yn gallu bod yn bethau fel:

- Cynllunwyr digidol ar gyfer gweithgareddau dyddiol.
- Canllawiau lluniau i ddeall tasgau.
- Larwm diogelwch i rybuddio am beryglon.



Mae gweithwyr yn rhoi'r offer yma yn gyflym pan fydd rhywun yn gofyn amdanyn nhw.



Mae staff **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** yn gwybod llawer am yr offer yma. Maen nhw yn helpu pobl a'u gofalwyr i ddod o hyd i'r offer gorau ar eu cyfer.



Fe wnaeth gweithwyr a gofalwyr ddweud bod llefydd da lle mae pobl yn gallu cymryd gwyliau byr. Un o'r llefydd yma ydy Tŷ Augusta, ac mae pobl a gofalwyr yn ei hoffi.



Wrth ymyl Augusta House mae yna 2 dŷ bach o'r enw podiau. Mae'r rhain yn helpu pobl i ddysgu gwneud pethau ar eu pennau eu hunain. Mae ganddyn nhw **dechnoleg gynorthwyol** y tu mewn i wneud pethau'n haws.

## Pethau sydd angen eu gwneud yn well



Mae pobl eisiau mwy o gyfleoedd i weithio a gwirfoddoli.




Roedd un person yn teimlo’n hapus pan roedd wedi ennill arian o swydd leol, ond doedd hynny ddim wedi para yn hir.



Mae rhai gofalwyr yn poeni nad oes llawer o bobl yn tyfu eu sgiliau. Mae hyn oherwydd nad oes digon o gyfleoedd i weithio.



**Fe ddylai’r cyngor wneud yn siŵr bod digon o swyddi a chyfleoedd i wirfoddoli.**




Mae’n rhaid i’r cynlluniau brys fod yn well. Mae hyn yn meddwl cael cynllun ar gyfer beth i’w wneud os nad ydy gofalwr yn gallu helpu. Mae’n bwysig cael y cynllun yma i wneud yn siŵr bod pobl yn teimlo’n ddiogel.




**Fe ddylai’r cyngor wneud yn siŵr bod gweithwyr yn helpu pobl a’u gofalwyr i wneud y cynlluniau yma.**



Mae rhai gweithwyr yn cael trafferth cael help ar amser i bobl gan **therapyddion galwedigaethol**. Mae’r rhain yn weithwyr sy’n eich helpu i wneud pethau yn eich bywyd bob dydd.




Mae rhai yn ddryslyd am beth mae **Therapyddion Galwedigaethol** o wahanol dimau i fod i’w wneud.



**Mae'n rhaid i'r cyngor weithio gyda'r bwrdd iechyd i wybod pwy sy'n gwneud beth. Fe fydd hyn yn helpu pobl gydag anabledd dysgu i gael y cymorth cywir maen nhw ei angen yn gyflym.**



Fe wnaeth y rhan fwyaf o weithwyr ddweud fod ganddyn nhw lawer iawn o waith i'w wneud. Roedd rhai yn dweud bod ganddyn nhw ormod. Dydy ymweliadau blynyddol â phobl a gofalwyr ddim bob amser yn digwydd ar amser.




**Mae'n rhaid i'r cyngor edrych ar gynlluniau gofal a chymorth yn aml i wneud yn siŵr bod pobl yn cael yr help cywir.**

## Gwaith da



Fe wnaeth y rhan fwyaf o sefydliadau ddweud bod fod ganddyn nhw gysylltiadau da gyda'r cyngor.



Maen nhw'n dweud bod gweithwyr cymdeithasol yn helpu ac yn trin pobl yn dda.



Roedd gweithio gyda gweithwyr iechyd yn mynd yn dda pan oedd y Tîm Iechyd Anabledd Dysgu yn adnabod yr unigolyn yn barod.

## Pethau sydd angen eu gwneud yn well



Dydy timau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ddim yn gweithio yn yr un lle.



Maen nhw yn defnyddio gwahanol ffyrdd o gadw cofnodion a dydyn nhw ddim yn gallu gweld ffeiliau ei gilydd.



Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd rhannu gwybodaeth am iechyd neu ofal pobl.



**Rhaid i'r cyngor a'r bwrdd iechyd weithio i wneud rhannu gwybodaeth yn haws.**



Mae gan y **Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig** gynllun ar gyfer gwella gwasanaethau.



**Fe ddylai'r cyngor ddefnyddio hwn i gynllunio beth sydd fwyaf pwysig i bobl.**



Cyn COVID-19, fe wnaeth y cyngor siarad â phobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Fe wnaethon nhw ddarganfod beth oedd fwyaf pwysig iddyn nhw.




Ond fe wnaeth COVID-19 oedi pethau. Dydy'r cyngor na'i bartneriaid ddim wedi gwneud mwy o waith ar hyn eto.



**Mae'n rhaid i'r cyngor weithio gyda phobl ag anabledd dysgu i gynllunio gwasanaethau.**

# Llesiant

## Gwaith da




Y rhan fwyaf o'r amser, mae gweithwyr yn edrych i weld ydy pobl yn gallu deall a gwneud dewisiadau drostyn nhw eu hunain. Mae hyn yn cael ei alw yn **galluedd meddyliol**.



Roedd y rhan fwyaf o wiriadau galluedd meddyliol roedden ni yn edrych arnyn nhw yn dda. Roedd yn dangos bod gweithwyr yn dilyn y rheolau.



Weithiau os nad oes gan bobl alluedd meddyliol, mae'r cyngor yn gwneud penderfyniadau am eu gofal amdanyn nhw.



Pan fydd hyn yn digwydd, mae rheolau a gwiriadau llym ar waith i ddiogelu rhyddid pobl gymaint â phosibl.




Weithiau mae oedi yn gallu digwydd. Ond pan mae'r cyngor yn gwirio, maen nhw'n gwirio'n dda.




Mae'r cyngor yn dda am ddilyn y rheolau wrth wneud penderfyniadau i bobl. Maen nhw'n gwybod beth maen nhw'n ei wneud yn iawn. A lle mae angen iddyn nhw wella.



Mae'r cyngor yn dda am sylwi pan nad ydy rhywun yn gallu cytuno i'w gofal a dydyn nhw ddim yn rhydd i stopio cael gofal. Maen nhw'n gofyn i'r **Llys Gwarchod** am help yn gyflym.




Mae'r **Llys Gwarchod** yn penderfynu pethau i bobl sydd yn methu gwneud eu dewisiadau eu hunain. Mae hyn yn gallu bod oherwydd eu bod yn rhy sâl neu ddim yn gallu deall pethau'n dda.



Mae'r cyngor yn gweithredu'n gyflym ac yn deg pan fyddan nhw yn cael adroddiadau diogelu oedolion. Mae'r rhain yn adroddiadau sy'n amddiffyn oedolion rhag niwed.



Mae sgyrsiau a chyfarfodydd cynllunio yn digwydd gyda'r bobl gywir ac ar amser.



Mae pawb yn cytuno bod cydweithio'n dda yn bwysig. Y peth mwyaf pwysig i bawb ydy cadw pobl yn ddiogel.

## Pethau sydd angen eu gwneud yn well



Mae pobl angen cael dweud eu dweud yn y broses ddiogelu. Fe ddylai'r person fod yn ffocws, ac fe ddylai hyn fod yn glir yn yr holl gofnodion. Rydyn ni'n credu nad ydy pobl yn cymryd rhan ddigon.



**Rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys beth mae pobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn feddwl.**



Pan fydd pryderon am ddiogelwch rhywun, mae angen i'r cyngor edrych i weld sut maen nhw'n ei drin yn gyflymach.




**Fe ddylai fod gan y cyngor ffordd dda o wneud yn siŵr bod popeth yn ddiogel. Fe ddylen nhw wrando ar bryderon a pharhau i wneud eu cynlluniau'n well.**



Dydy gweithwyr a phenaethiaid ddim bob amser yn darganfod beth mae pobl yn dda am ei wneud mewn adroddiadau diogelu.



Fe ddylai asesiadau llesiant ddangos beth sy'n bwysig i bobl. Doedd dim llawer o dystiolaeth o hyn yn y cofnodion diogelu.




**Fe ddylai'r cyngor wneud rheolau clir ar gyfer cofnodion i gynnwys nodau a beth mae pobl yn dda am ei wneud.**



Mae'r tîm diogelu yn gwirio'n dda ac yn gweithio'n galed i gael gwybodaeth. Fe wnaethon ni weld mewn rhai cofnodion eu bod nhw yn gallu bod yn araf yn gofyn i bobl eraill am wybodaeth.



**Rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod pob gweithiwr yn gwybod ei bod yn bwysig gwneud pethau'n gyflym a gweithio'n dda gyda'r tîm diogelu.**

# Beth fydd yn digwydd nesaf



Rydyn ni eisdiau i'r cyngor weithio i drwsio'r pethau sydd angen eu gwella.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Fe fyddwn ni yn siarad â nhw'n aml i weld sut mae pethau'n mynd.



Fe ddylai'r cyngor rannu beth sydd yn gweithio'n dda gyda chynghorau eraill i wneud gwasanaethau'n well ar draws Cymru.




You can learn how we use your information at: www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.




Roedden ni yn barod i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer y **Gwiriad Sicrwydd** yma ond doedd neb am ei defnyddio.




Diolch i’r staff, partneriaid ac eraill sydd wedi helpu gyda’n gwaith.

# Geiriau anodd

## Gwiriad Sicrwydd

Mae gwiriad sicrwydd yn waith i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud eu gwaith yn dda ac yn dilyn y rheolau.

## Llesiant

Mae llesiant yn meddwl teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael cefnogaeth.

## Technoleg gynorthwyol

Mae technoleg gynorthwyol yn offer sy'n helpu pobl i wneud pethau sydd yn gallu bod yn anodd iddyn nhw. Yn y cartref, mae hyn yn gallu bod yn bethau fel:

- Cynllunwyr digidol ar gyfer gweithgareddau dyddiol.
- Canllawiau lluniau i ddeall tasgau.
- Larwm diogelwch i rybuddio am beryglon.

WG49983
ISBN 978-1-83625-100-2